



DARLITH FLYNYDDOL MORLAN 2010

Crefydd a Gwleidyddiaeth

**Y Parchedcaf Ddoctor Barry Morgan,
Archesgob Cymru**



Morlan

Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture



Cefndir

Canolfan yw Morlan sydd â'r nod o hybu bywyd cymunedol – yn ddiwylliannol ac ysbrydol, yn lleol a thu hwnt. Fe'i sefydlwyd yn Ebrill 2005 i greu pont rhwng yr eglwys a'r gymdeithas o'i chwmpas ac mae wedi datblygu yn ganolfan bwysig yn yr ardal.

Ond mae Morlan yn llawer mwy nag adeilad ...

Mae'n fan cyfarfod – i greu a thrafod, i berfformio, i ddysgu, i ysgogi a chalonogi, i gyd-ddeall a chlosio, i rannu a chyfrannu ... tir canol rhwng yr eglwys a phawb sy'n byw yn ein cymdeithas amlddiwylliannol.

Man croesawus a chyfeillgar ydyw sy'n adlewyrchu'r egwyddorion hynny bletha'r ddynoliaeth, pob crefydd a chred i'w gilydd. Gwêl ymddiriedolwyr Capel Presbyteriaid y Morfa, perchnogion Morlan, fod sefydlu a chefnogi'r ganolfan yn rhan o'u cenhadaeth.

Gellir llogi amryw ystafelloedd Morlan – neuadd fawr, dwy ystafell bwyllgor a bar coffi – ar gyfer pob math o ddigwyddiadau a gweithgareddau, ac mae ganddi'r cyfleusterau ar gyfer perfformiadau cerddorol a drama. Ac mae'n ganolfan brysur! Cynhelir cyfarfodydd gweddi, dosbarthiadau Cymraeg, dosbarthiadau dawnus a grŵp darllen gwefusau a chlwb ieuenticid yno bob wythnos, ac mae nifer o grwpiau lleol yn ystyried Morlan fel eu 'cartref', gan gwrdd yn rheolaidd yno. Llogir y lle gan grwpiau lleol a chenedlaethol.

Yn ogystal, mae Morlan yn cynnal ei rhaglen ei hun o ddigwyddiadau a gweithgareddau trwy gydol y flwyddyn ar ystod eang o bynciau – cymdeithasol, gwleidyddol, crefyddol a diwylliannol.

Rhwng y rhaglen hon a gweithgarwch y llogwyr, mae pob math o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal yn y Morlan – pwyllgorau, cynadleddau, dramâu, cyngherddau, cyfarfodydd cyhoeddus, digwyddiadau cymdeithasol, ffeiriau o bob math, trafodaethau, anerchiadau ac arddangosfeydd celf.

Hon yw Darlith Flynyddol gyntaf Morlan.

© 2010 Barry Morgan
ISBN: 978-0-9565522-0-4
Cyhoeddir gan Morlan

Am ragor o wybodaeth am y Morlan, cysyllter â:

Y Rheolwr
Morlan
Morfa Mawr
Aberystwyth
SY23 2HH

Ffôn: 01970-617996
E-bost: morlan.aber@gmail.com
Gwefan: www.morlan.org.uk

Crefydd a Gwleidyddiaeth

Honiad llawer o bobl yw nad oes modd cyfuno crefydd a gwleidyddiaeth. I mi, camddarllen yr Ysgrythurau yw hynny. Y ffordd orau i mi esbonio'r hyn yr wyf yn ei olygu yw drwy ddisgrifio i chi ddau fodel o ddisgyblaeth Gristnogol a enghreifftir gan unigolion y gwnaf i eu galw yn Sion a Sian. Efallai y byddaf yn gorliwio'r ymagweddau er mwyn darlunio fy nadl, felly gobeithio y gwnewch chi faddau i mi am hynny.

Cristion yw Sion sydd o ddifrif am ei ffydd bersonol. Mae'n ystyried bywyd fel proses sy'n ei wneud ef ei hun yn fwy sanctaidd. Iddo ef, hanfod y ddisgyblaeth yw materion megis tröedigaeth a thaith yr enaid, ac mae'n ei ymrwymo ei hun i astudio'r Ysgrythurau, i weddi, i eiriolaeth, i symlrwydd bywyd. Iddo ef, yr Efengyl yw Efengyl iachawdwriaeth ffydd yn y Crist a groeshoeliwyd. Yr hyn sy'n bwysig ynglŷn â bod yn ddisgybl yw bod pobl yn derbyn yr Iesu fel Iachawdwr ac Arglwydd personol iddynt hwy.

Cristion yw Sian sy'n cymryd Emyn Mawl Mair (y *Magnificat*) o ddifrif, yn enwedig y geiriau:

*“Gwasgarodd ddynion balch eu calon;
tynnodd dywysogion oddi ar eu gorseddau,
a dyrchafodd y rhai distadl;
llwythodd y newynog â rhoddion,
ac anfonodd y cyfoethogion ymaith yn waglaw.”*

Pwysleisia Sian bwysigrwydd bywyd cymunedol ac, yn ganolog i ddealltwriaeth o ffordd Duw â'r byd, mae'n ystyried rhyddhau Israel rhag cyfundrefn orthrymol yn yr Aifft drwy'r Ecsodus, a sefydlu perthynas Cyfamod. Cyfamod oedd hwn oedd yn ymwneud â chyfiawnder, triniaeth gyfiawn ac uniondeb, lle'r anogir y gymuned gyfan i edrych ar ôl gweddwon, dieithriaid a'r rhai nad oes ganddynt dir.

I Sian, cadarnheir yr ymagwedd hon gan yr Iesu, sydd yn ei weinidogaeth yn mynd allan o'i ffordd i weinidogaethu i'r rheini sydd wedi'u heithrio a'u dieithrio ac iddo ef, dyma hanfod bod yn Gristion. Yn y synagog yn Nasareth dechreuodd yr Iesu ei weinidogaeth drwy gyhoeddi Ei fod wedi dod i adael y caethion yn rhydd, i roi golwg i'r deillion ac i ryddhau'r gorthrymedig.

I Sian, felly, mae'r Efengyl yn ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol. Mae'n pryderu am dlodi, gwahaniaethu ar sail hil, arfau niwclear ac felly mae'n treulio llawer o'i hamser yn trefnu protestiadau ac ymgyrchoedd, yn arwain pobl mewn protestiadau dros achosion gwleidyddol sy'n ei thanio ac mae drwy'r amser yn siarad am hil, tlodi, rhyfel a'r drwg sy'n deillio ohonynt.

Nawr, o'r disgrifiadau hyn, fe fyddwch yn gwybod nad wyf i wedi bod yn sôn am bobl go iawn, ond am fathau o bobl. Fodd bynnag, mae'n wir fod rhai Cristnogion yn rhoi'r holl bwyslais ar iachawdwriaeth unigol. Iddynt hwy mae'r bywyd Cristnogol yn ymwneud â sancteiddhad, paratoi ar gyfer tragwyddoldeb. Mae eraill yn gweld y

bywyd Cristnogol fel ymarfer sy'n dangos trugaredd yr Iesu i'r rheini sydd mewn angen, ac sy'n brwydro am gyfiawnder. Y cwestiwn yw, ym mhle mae'r gwirionedd?

Efallai bod problemau â'r ddwy ymagwedd.

Gall Sion fyw yn y byd heb unrhyw ymwybyddiaeth fod unrhyw beth o'i le ynddo cyhyd â bod eneidiau yn cael tröedigaeth ac yn cael eu hachub. Nid yw am ofyn y cwestiwn "*tröedigaeth i beth*" ac "*achub i beth*". Mewn un ystyr, lle i'w oddef yw'r byd. Yr hyn sy'n wirioneddol bwysig yw perthynas â Duw drwy'r Iesu yn y byd hwn a'r nesaf.

I Sian mae tröedigaeth yn effeithio ar bob agwedd o'i bywyd a'r byd. Nid yw'n bodoli mewn gwacter. Mae hi'n wraig, yn fam, yn gyflogwr ac yn ddinesydd. Mae ganddi bethau sy'n ei difyrru, diddordebau, arian, incwm, cyfoeth. Tröedigaeth yw tröedigaeth ei holl fodolaeth ac mae'n effeithio ar bopeth ac mae'n ymwneud â mwy na'i defosiwn personol hi yn unig.

I Sian, nid oes modd ysgaru unigolion oddi wrth y cymunedau y maent yn byw ynddynt. Mae'n amhosibl gofalu am bobl heb ar yr un pryd boeni am y materion sy'n effeithio arnynt ac am y strwythurau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae caru cymydog yn golygu mwy na phryder am enaid y cymydog hwnnw'n unig, mae'n cynnwys pryderu am rai o'r problemau y mae'n eu hwynebu ac unwaith bydd unigolyn yn ymwneud â hynny, mae ar unwaith yn ymwneud â'r strwythurau yn y gymdeithas sy'n arwain at ei broblem gymdeithasol benodol – nid oes modd osgoi hynny.

Ymhellach, i Sian, mae'n ddigon posibl mai iachawdwriaeth yr enaid neu hunan-sancteiddio yw nod Bwdhaeth neu athroniaeth Groeg neu seicoleg fodern. Nid dyma nod Cristnogaeth. Mae unrhyw un sy'n cofleidio Cristnogaeth at ddiben hunanfodddhad neu ei iachawdwriaeth ei hun yn camddeall yr Efengyl ar ei lefel ddyfnaf. Yn ei hanfod, crefydd gymunedol yw Cristnogaeth, nid crefydd bersonol – crefydd corff – Corff Crist ac mae'n gorff sy'n bodoli er mwyn eraill. Mae'r Eglwys, ac felly Cristnogion unigol, yn bodoli er mwyn y byd y mae Duw yn ei garu ac mae Duw yn ein gwahodd ni i ymuno ag Ef yn ei gariad at y byd hwnnw. Ys dywed Llythyr Ioan, "*ni all neb nad yw'n caru'r brawd y mae wedi ei weld, garu Duw nad yw wedi ei weld*".¹

Ond mae peryglon hefyd ynghlwm ag ymagwedd Sian. Mae'n ddigon hawdd cael eich symbylu i brotestio am gamweddau pobl eraill yn eich gwlad eich hun a gwledydd eraill gan anwybyddu eich camweddau a'ch methiannau eich hun.

Ymhellach, mae'n hawdd iawn rhoi achosion a safbwyntiau yn lle Duw, ac anghofio am y bywyd ysbrydol a'r angen am weddi ac edifeirwch, a gall hyn arwain at chwerwder a diffyg dyfnder yn hytrach na chariad a gwasanaeth. Gall crefydd ddyfod yn forwyn i bropaganda ac ideoleg wleidyddol.

Felly ceir peryglon yn y ddau fodel. I fod yn wir Gristion mae angen y ddau. Mae'n amhosibl cael crefydd unigolyddol lwyr nad yw'n ymwneud â neb na dim byd arall ond, yn yr un modd, mae'n amhosibl cael ffydd nad yw'n rhoi ystyriaeth ddifrifol i

¹ 1 Ioan 4:20

sancteiddio. Mae angen i ni ganfod sancteiddrwydd, ffydd nad yw'n ymwneud yn unig â chyflwr yr enaid ond hefyd â byd Duw a'r materion y mae'n eu hwynebu. Ond yn ein pryder am y byd hwnnw a'r hyn sy'n digwydd ynddo, mae angen i ni fod yn agored i ysbryd Duw, i geisio gwneud Ei ewyllys ynddo a chael ein hail-greu yng ngoleuni dibenion cariad Duw.

Yn gryno, rhaid i ni garu Duw a'n cymdogion a charu Duw yn ein cymydog a'n cymydog yn Nuw a gweld nad yw'r elfennau hyn yn hanfodion sydd ar wahân i'w gilydd, ond ynghlwm â'i gilydd mewn modd cynhenid ac anwahanadwy ac mae hynny yn anochel yn arwain at ymwneud â gwleidyddiaeth.

Wrth sôn am wleidyddiaeth, nid gwleidyddiaeth plaid sydd gennyf mewn golwg ond gwleidyddiaeth ag 'g' fach – sut rydym ni'n trefnu ein hunain yn y gymdeithas.

Daeth y Cristnogion cyntaf i'r gred a fynegwyd yn eu datganiad credoaid fod yr Iesu yn Arglwydd. Roedd yn argyhoeddiad a gododd ar ôl atgyfodiad yr Iesu o farw yn fyw. Rhed yr argyhoeddiad hwn drwy'r Testament Newydd cyfan. I ni mae natur chwyldroadol y datganiad hwnnw "*Mae'r Iesu yn Arglwydd*" wedi colli rhywfaint o'i finiogrwydd a'i ffresni. Yng nghyfnod y Cristnogion cynnar roedd yn ddatganiad cyhoeddus a allai arwain at farwolaeth.

Rwyf am geisio esbonio ei oblygiadau gan gyfeirio at hanesion y geni. Daeth y Gwŷr Doeth at Herod a'i holi ymhle y ganwyd Brenin yr Iddewon er mwyn iddynt allu mynd i'w addoli.

Herod oedd Brenin yr Iddewon ac felly trefnodd fod holl feibion yr Iddewon yn cael eu lladd er mwyn cael gwared ag unrhyw fgythydd iddo. Mae'r ofn hwnnw oedd gan Herod yn arwydd o'r cyferbyniad rhwng syniad Herod o frenhiniaeth a syniad yr Iesu. Wrth i'r Efengyl fynd rhagddi, fe ddeuwn i sylweddoli bod dau fath o frenhiniaeth, gwleidyddiaeth yn cael eu datgelu. Yn groes i drais a gorthrwm ac arswyd Herod mae arglwyddiaeth gwasanaeth a breguster a chariad yr Iesu. Ac fel y dywed Sant Mathew, yr Iesu yw gwir Frenin yr Iddewon.

Ond er bod Ei frenhiniaeth yn wahanol, roedd datgan hynny yn her i orsedd Herod, ac felly roedd yn wleidyddol. Ac roedd dweud bod yr Iesu yn Arglwydd – '*Kyrios*' – hefyd yn golygu hawlio teitl swyddogol Ymerawdwr Rhufain. Ar un adeg, ymerawdwyr marw yn unig a fyddai'n cael eu galw'n Arglwyddi (hynny yw dwyfol) ond, yn raddol, daeth ymerawdwyr byw hefyd i gael eu hystyried yn Arglwyddi neu Dduwiau. Byddai templau yn cael eu hadeiladu iddynt a phrawf o deyrngarwch fel dinesydd yr Ymerodraeth oedd gallu unigolion i ddweud "*Cesar yw'r Arglwydd*".

Yn fersiwn iaith Groeg o'r Hen Destament, y Septuagint, defnyddid y gair '*Kyrios*' i gyfieithu'r gair am Dduw, '*Yahweh*'. Mewn geiriau eraill, i Iddewon a siaradai Groeg, roedd y gair '*Kyrios*' yn cyfateb i enw Duw. Felly nid yn unig roedd arwyddocâd gwleidyddol ynghlwm â dweud fod yr Iesu yn Arglwydd yn hytrach na Herod a Cesar, ond roedd arwyddocâd crefyddol hefyd. Yr honiad yw nad llywodraethwr daearol yn

unig yw'r Iesu, ond ef hefyd yw'r llywodraethwr nefol. Neges wleidyddol chwyldroadol yn wir.

O ganlyniad, oherwydd y gred hon, roedd Cristnogion cynnar yn gwrthod talu teyrnged i Cesar. Yr Iesu oedd yr Arglwydd, ac felly nid oeddent yn barod i gydnabod Arglwyddiaeth Cesar. Wrth gwrs, roeddent yn wynebu marwolaeth drwy alw unrhyw un ar wahân i Cesar yn Arglwydd. Roedd yn chwyldroadol oherwydd eu bod yn rhoi'r teitl hwn 'Arglwydd' i ddyn oedd wedi'i groeshoelio drwy orchymyn penodol y grym Rhufeinig oedd yn meddiannu Jiwdea ar y pryd. Roedd yr Iesu yn ffigur oedd wedi'i iselhau, dinesydd wedi'i ddiarddel, yn wrthodedig. Gwehilion y ddaear oedd yn cael eu croeshoelio. Ni fyddai'r Rhufeiniaid yn croeshoelio eu dinasyddion eu hunain, yr unig rai a gâi eu croeshoelio oedd unigolion nad oeddent yn Rhufeiniaid a ddedfrydwyd yn euog o droseddau, drwgweithredwyr o'r dosbarth isaf – rebeliaid, troseddwyr, caethweision. Ac eto, er eu bod yn gwybod mai marwolaeth fyddai'r gosb, roedd pobl yn dal i fod yn barod i sefyll a chyffesu bod yr Iesu yn Arglwydd.

Yr hyn yr oedd y Cristnogion cynnar yn ei ddweud oedd mai'r Iesu oedd eu Harglwydd yn hytrach na Cesar a bod yr Iesu hwn yn ymgymryd â grym ac awdurdod Duw. Roedd y Cristnogion cynnar yn teimlo mai'r teitl 'Arglwydd' oedd yr unig enw digonol i'w roi i'r Iesu. Dychmygwch sut roedd yr awdurdodau Rhufeinig yn teimlo am hynny. Roedd Cesar yn Arglwydd drwy goncwest, gorthrwm a thrais. Roedd yr Iesu yn Arglwydd oherwydd Iddo ddod â chyfiawnder a chymdeithas ddi-drais i'r ddaear. Felly roedd datgan bod yr Iesu yn Arglwydd, gan ddefnyddio'r amser presennol yn hytrach na'r gorffennol am eu bod yn credu yn ei bresenoldeb byw, yn cael ei weld fel bradwriaeth gan Herod a chan Rufain. Mae'r Testament Newydd yn datgan Arglwyddiaeth yr Iesu a theyrnasiad Duw tros ac yn erbyn llywodraethwyr y byd. Go brin fod hynny'n enghraifft o gadw crefydd a gwleidyddiaeth ar wahân.

Mae datgan yr Iesu yn Arglwydd yn ddatganiad gwleidyddol radical. Mae'n parhau i godi cwestiynau i ni fel unigolion, fel eglwysi ac fel cenedl – sut ydym ni'n defnyddio grym a dylanwad, boed filwrol, gwleidyddol neu economaidd? Yn lle'r ydym ni'n sefyll? Ydym ni gyda Herod a Cesar sy'n llywodraethu drwy dra-arglwyddiaeth ac ofn a bygythiad ynteu a ydym ni gyda'r Iesu sy'n llywodraethu mewn modd gwahanol drwy gyfiawnder, heddwch a dulliau di-drais? Bymtheng mlynedd yn ôl mewn ymateb eciwmenaidd i rai cwestiynau moesol yng Nghymru a gomisiynwyd gan Cytûn, dywedwyd:

“Mae cymdeithas a gaiff ei hadeiladu ar unigolyddiaeth, hunan-ganoli, ysfa gystadleuol annheg a thrachwant materol cynyddol yn siŵr o ddatgymalu. Yn sylfaenol mae llywodraethu yn ymwneud â datblygu offerynnau cyfrifol ac atebol a all greu a sefydlu cymunedau o gyfiawnder a thrugaredd, lle mae pawb yn perthyn, lle caiff urddas personol ei gadarnhau a lle caiff pawb ofal.”²

Dyma'r rheidrwydd gwleidyddol sydd yn dal i'n hwynebu yn 2010.

² Cymru: Cymdeithas Foebol, ymateb eciwmenaidd i rai cwestiynau moesol yng Nghymru, Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, Mehefin 1996, Pennod 7, t. 68

Oherwydd mae bod yn ddisgybl i'r Iesu yn golygu cymryd rhan yn Ei ddull Ef o Arglwyddiaeth gwasanaeth a golchi traed Ei ddisgyblion. Mae dweud mai'r Iesu yw'r Arglwydd yn golygu cydnabod Ei bendefigaeth ond hefyd ymrwymo i'w ffordd Ef o wasanaethu, caru a thrugarhau. Mae'n ymwneud â thrawsnewid i fod yn debyg iddo Ef, ond hefyd mae'n ymwneud ag ymuno ag Ef yn Ei frwydr yn erbyn unrhyw beth a phopeth sy'n dad-ddyneiddio ac yn iselhau bodau dynol. Mae'n gyfuniad o ddealltwriaeth loan ac Iago, sancteiddrwydd personol sy'n ein cymell i weithredu'n gymdeithasol, a gweithio i leddfu'r problemau sy'n wynebu unigolion, a ddaw â grym ar gyfer newid cyfundrefnol yn ei sgil. Mae cydnabod Arglwyddiaeth yr Iesu yn golygu helpu Duw i greu teyrnas Dduw ar y ddaear fel y mae yn y nefoedd – byd o gyfiawnder, heddwch a chynladwyedd. Rydym yn gydweithwyr â Duw mewn gweddi a gweithred.

Mae datgan yr Iesu yn Arglwydd yn golygu dweud mai Ef yw Arglwydd y bywyd cyflawn fel y mae Duw, nid yn unig y darnau hynny rydym ni'n eu labelu'n ddarnau crefyddol neu'n ddarnau eglwysig. Mae Teyrnas Duw gyfled â'r Bydysawd ac nid oes dim ynddi nad yw'n ymwneud ag Ef. Os mai pobl Dduw ydym ni, sy'n datgan Arglwyddiaeth yr Iesu, yna mae pryderon Ei fyd yn bryderon i ni hefyd oherwydd eu bod yn eiddo iddo Ef. Mae'n rhan o'r hyn mae'n ei olygu i fod yn ddisgyblion iddo ac yn anochel mae hynny'n golygu ein bod yn gweithredu'n wleidyddol.

Esgob Zanzibar yn Nwyrain Affrica oedd Frank Weston ac ym 1923 anerchodd Gyngres Eingl Gatholig gan ddweud:

“os ydych chi'n fodlon ymladd am yr hawl i addoli'r Iesu yn ei Sacrament Bendigaidd, yna pan ddewch chi allan o flaen eich tabernacl, rhaid i chi gerdded gyda Christ drwy strydoedd y wlad hon a chanfod yr un Crist ym mhobloedd eich trefi a'ch pentrefi. Ni allwch honni addoli'r Iesu yn y tabernacl os nad ydych chi'n trugarhau wrth yr Iesu yn y slymiau. Gwallgofrwydd yw tybio y gallwch addoli'r Iesu yn y Sacrament pan fyddwch chi ar yr un pryd yn Ei chwysu yng nghyrrff ac eneidiau Ei blant.”

Yn Ne Affrica dan apartheid datganodd Desmond Tutu gydraddoldeb pob hil yn enw Duw. Creodd hyn wrthdaro â llywodraeth oedd yn anghytuno, ac arweiniodd at brotestiadau gwleidyddol. Sefydlodd y Fam Teresa urdd i leddfu dioddefaint yr anghenus yn India ac, ar yr un pryd, roedd yn brwydro am well cydnabyddiaeth gan gymdeithas i'w helynt.

Nid oes felly ddwy agwedd wahanol i fywyd, yr ysbrydol a'r materol – y naill yn ymwneud â Duw, ffydd, gweddi a'r bywyd mewnol, a'r llall yn ymwneud â maes materol gwaith, gwleidyddiaeth a byw yn y byd. Nid oes modd cyfyngu ffydd i'r cartref a'r eglwys a'i eithrio o'r maes cyhoeddus fel pe bai crefydd yn rhywbeth y mae unigolion yn ei wneud yn eu hamser hamdden – gweithgaredd ymylol a phreifat i'r rheini sy'n hoffi'r math yna o beth. Mae derbyn hynny yn gwadu'r hyn y mae'n ei olygu i gredu mewn Duw sydd wedi dod â phopeth i fod.

Mae Cristnogion hefyd yn credu bod bodau dynol wedi'u gwneud ar ddelw Duw ac yn feibion ac yn ferched iddo Ef ac felly bod pob agwedd o'n bywydau o bwys Iddo

oherwydd fod ôl Ei natur arnom. Mae bod â safbwynt gwahanol fel dweud wrth riant y dylai gyfyngu unrhyw bryder i un neu ddwy o agweddau o fywyd y plentyn, yn hytrach na'r bywyd cyfan.

Gadewch i mi egluro hyn hyd yn oed yn fanylach nag yr wyf wedi'i wneud eisoes. Os astudir yr Ysgrhythrau, hyd yn oed yn frysiog, gwelir yn fuan iawn nad yw Duw yn cyfyngu ei ddiddordeb i faterion yr honnir eu bod yn grefyddol. Yn wir, mae Duw'r Hen Destament, drwy ei broffwydi, yn cystwyo pobl Israel am feddwl mai'r cyfan y mae arno Ef ei angen yw addoliad cywir – yr hyn a elwir gan y proffwydi yn boethoffrymau aberthol tra bod anghenion y tlodion, y gweddwon, yr amddifad a'r dieithriad yn eu mysg yn cael eu hanwybyddu. Mewn gwirionedd mae'r proffwydi yn datgan mai trugaredd sydd ei angen ar Dduw yn hytrach nag offrwm, a bod yn gas ganddo wyliau crefyddol sydd ar wahân i fywyd. Ag yntau'n ysgrifennu yn yr wythfed ganrif cyn Crist, mae Micha yn cyhuddo cymdeithas sydd wedi'i llygru gan bŵer cyfoeth ac sy'n manteisio ar ddinasyddion cyffredin. Dywed Micha na allai dyn bellach alw ei gartref yn eiddo iddo'i hun ac y byddai ei deulu yn byw mewn ofn.

Yng nghymdeithas lewyrchus Micha, roedd bywyd yn rhad, ac arweinwyr Israel oedd yn gyfrifol am ei dadfeiliad cymdeithasol. Gydag argyhoeddiad dewr, datganai Micha y byddai distryw na fyddai modd dianc rhagddo, oherwydd eu bod wedi peidio â bod yn bobl Dduw yn sgil eu annynoldeb. Rhan fwyaf pwerus Micha, sy'n diffinio ei alwad, yw pennod 6, adnod 8:

“Dywedodd wrthyt, ddyn, beth sydd dda, a'r hyn a gais yr Arglwydd gennyt: dim ond gwneud beth sy'n iawn, caru ffyddlondeb, a rhodio'n ostyngedig gyda'th Dduw.”

Mae gweithredu cymdeithasol, trugaredd a meddwl am bobl eraill yn mynd law yn llaw â bendith Duw. Ganrif yn ddiweddarach roedd Jeremeia yn proffwydo'r un thema. Ychydig iawn y mae pobl yn ei ddysgu, ac yn araf!

Aiff y Testament Newydd gam ymhellach. Ei greddo canolog yw bod Duw wedi dod yn ddyn (ymgnawdoli) yn Iesu Grist oherwydd yng ngeiriau un diwinydd, *“matter matters to God”*. Mae gan Dduw gymaint o ofal am y byd – y byd cig a gwaed – fel Ei fod yn dod yn rhan ohono i ddangos Ei gefnogaeth iddo; dyna ystyr ymgnawdoliad.

Felly mae'r Iesu yn rhoi cychwyn ar ei weinidogaeth gyhoeddus yn Nasareth â'r geiriau hyn:

“Y mae Ysbryd yr Arglwydd arnaf, oherwydd iddo f'eneinio i bregethu'r newydd da i dlodion. Y mae wedi f'anfon i gyhoeddi rhyddhad i garcharorion, ac adferiad golwg i ddeillion, i beri i'r gorthrymedig gerdded yn rhydd.”³

A threuliodd yr Iesu, sy'n datgelu cymaint i ni am Dduw ag y mae'n bosibl i fod dynol ei ddatgelu, y rhan fwyaf o'i weinidogaeth nid mewn synagog neu deml ond yn pregethu

³ Luc 4: 18

i'r tlodion a phobl yr ymylon ac estyn allan i'r holl bobl hynny a gâi eu hystyried yn annerbyniol neu'n anghyffyrddadwy yn ei gymdeithas Ef am resymau crefyddol moesol a gwleidyddol (pechaduriaid, cenedl-ddynion a chasglwyr trethi). Mae pob un o'r Efengylau yn cyfeirio'n benodol at drugaredd yr Iesu, yn iacháu pobl yr ymylon, yn derbyn y rheini a anwybyddwyd neu a wrthodwyd gan gymdeithas. Fe'i lladdwyd, ar ôl cael ei gondemnio gan yr awdurdodau crefyddol a seciwlar am Ei fod yn fygythiad iddynt.

Cred Marcus Borg, y diwinydd Americanaidd fod dau beth yn bwysig i'r Iesu – ysbryd Duw a thrugaredd Duw. Roedd yn agored i'r ddau. Felly byddai'n gweddio ar Dduw ac yn cyfeirio ato fel Abba – Tad – ac roedd ganddo berthynas ddofn a pharhaus ag Ef. Yn ôl Borg roedd yr Iesu yn drugarog oherwydd ei fod yn credu mai trugaredd oedd nodwedd ddiffiniol Duw. Mae'n diffinio trugaredd fel cysylltu â dioddefaint unigolyn arall a gwneud rhywbeth amdano.

Yn ei weinidogaeth o drugaredd fodd bynnag, roedd yr Iesu yn gwrthdaro â'i feirniaid oherwydd iddynt hwy prif nodwedd Duw oedd sancteiddrwydd – *“Byddwch sanctaidd oherwydd sanctaidd wyf i”* (Leiticus). Ac roedd sancteiddrwydd yn golygu gwahanu oddi wrth bopeth oedd yn aflan. Roedd sancteiddrwydd yn golygu purdeb ac roedd y gymdeithas Iddewig wedi'i strwythuro o gylch system o burdeb lle'r oedd popeth yn cael ei ddsbarthu naill ai yn bur neu'n amhur, yn lân neu'n aflan. Cyfreithiau purdeb oedd yn rheoli cymdeithas yr Iddew. Byddai eich swydd yn eich gwneud yn amhur pe baech chi'n gasglwr trethi neu'n fugail. Byddech yn cael eich ystyried yn ddefodol amhur oherwydd yn y naill achos roeddech yn delio â phŵer estron ac yn y llall ag anifeiliaid, ac roedd bod yn amhur yn eich gwneud chi'n anghyffyrddadwy. Roedd pobl oedd wedi'u clwyfo neu â salwch cronig yn cael eu hystyried yn amhur. Roedd bod yn dlawd yn golygu eich bod yn amhur oherwydd bod cyfoeth yn cael ei ystyried yn fendith gan Dduw a thlodi fel arwydd o anfodlonrwydd Duw.

Roedd dynion yn burach na menywod oherwydd genedigaeth. Roedd cenedl-ddynion, pobl nad oeddent yn Iddewon, yn amhur ac yn aflan. Effaith y system purdeb yng nghymdeithas yr Iesu oedd creu byd â ffiniau cymdeithasol llym rhwng pur ac amhur, y cyfiawn a'r pechadur, cyflawn ac anghyflawn, gwryw a benyw, cyfoethog a thlawd, Iddewon a chenedl-ddynion. Canolfan purdeb oedd y deml a'r offeiriaid oedd yn ei chynnal.

Fodd bynnag, yn hytrach na phurdeb defodol y deml, soniodd Iesu am drugaredd, nid purdeb, fel calon cariad Duw, ac felly beirniadau'r system oedd yn pwysleisio purdeb ac yn esgeuluso cyfiawnder gan alw'r Phariseaid yn feddau heb eu nodi y mae pobl yn cerdded drostynt yn ddiarwybod. Mewn geiriau eraill, galwodd y grŵp oedd yn ymfalchïo yn ei burdeb yn ffynhonnell o amhurdeb oherwydd ystyrid cyrff marw yn amhur.

I'r Iesu, purdeb oedd yr hyn oedd yn dod allan o unigolyn, yn hytrach na'r hyn oedd yn mynd i mewn i unigolyn. Dyna pam y dywedodd, *“Gwyn eu byd y pur o galon”*. Nid oedd purdeb gwirioneddol yn fater o ffiniau ac ymlyniad allanol, ond o'r galon. Beirniadaeth o system purdeb yw dameg y Samariad Trugarog. Anwybyddodd yr

offeiriad a’r Lefiad y gŵr a syrthiasai i blith lladron oherwydd eu bod am gynnal eu purdeb. Roedd cyswllt â marwolaeth neu salwch yn ffynhonnell o amhurdeb felly aethant heibio iddo rhag ofn iddynt gael eu llygru ond, ar y llaw arall, gweithredodd y Samariad, a ystyrid gan y rhan fwyaf o Iddewon yn amhur, yn drugarog drwy ofalu am y gŵr a adawyd yn hanner marw.

Felly cyffyrddai yr Iesu â gwahangleifion a gwagedd â gwaedlif a chymysgai â menywod a phlant. Aeth at fynwent at ŵr llawn ysbrydion aflan oedd yn byw’n agos at foch – ffynhonnell arall o amhurdeb. Byddai’n bwyta gyda phob math o bobl. Ym myd yr Iesu, roedd rhannu pryd o fwyd ag unigolyn yn arwydd o dderbyn yr unigolyn hwnnw. Nid gweithred ddifeddwl ydoedd oherwydd ni fyddai neb parchus yn rhannu pryd ag un a alltudiwyd. Roedd trugaredd yn golygu cymuned gynhwysol. Roedd purdeb er ei fwyn ei hun yn golygu cymdeithas gaeedig.

Roedd ei ddilynwyr yn cynnwys menywod, oedd ynddo’i hun yn ddatganiad radical. Mewn cymdeithas a lywodraethid gan y system hon o burdeb, ystyrid menywod yn neb, heb yr un hawliau â dynion. Nid oedd ganddynt yr hawl i fod yn dystion mewn llys barn, na dwyn achos cyfreithiol nac achos ysgaru. Nid oedd hawl ganddynt i ddysgu’r gyfraith, ac roeddent yn gwisgo gorchudd yn gyhoeddus ac ni fyddent yn cael prydau bwyd y tu allan i’r teulu. Hunaniaeth y fenyw oedd hunaniaeth ei thad neu ei gŵr ac eto roedd yr Iesu yn mwynhau cwmni menywod gyda phrydau bwyd. Mae hyd yn oed yn caniatáu i un olchi ei draed, ac iddynt deithio gydag Ef. Felly roedd yr Iesu yn ymgorffori gweledigaeth gymdeithasol amgen radical i fenywod.

Chwalodd yr Iesu yr holl ffiniau hyn am Ei fod am i bobl fod yr un mor drugarog â Duw. Tra bod purdeb yn rhannu ac yn eithrio, roedd trugaredd yn uno ac yn cynnwys. Newidiodd yr Iesu wleidyddiaeth purdeb am wleidyddiaeth trugaredd.

Mae’r beirniad llenyddol, Terry Eagleton, yn ei esbonio fel hyn:

“... anghrist yr Ysgrythur sy’n casáu poethoffrymau a gweithredoedd hunangyfiawn a hunanfodddhaus, yw gelyn eilunod, ffetisiau a delwau cerfiedig o bob math - duwiau, eglwysi, aberthu defodol, y Sêr a’r Streipiau, cenhedloedd, llwyddiant, ideolegau ac yn y blaen. Fe fyddwch chi yn Ei adnabod pan welwch y newynog yn cael eu llenwi â phethau da a’r cyfoethog yn cael eu hanfon i ffwrdd yn waglaw. Nid cwlt, cyfraith a defod, ymlyniadau arbennig a chydymffurfio â chod moesol, lladd anifeiliaid i’w hoffrymu neu fod yn rhyfeddol o rinweddol ... yw iachawdwriaeth. Mae’n fater o fwydo’r newynog, croesawu’r mewnddyfodiaid, ymweld â’r cleifion, ac amddiffyn y tlawd, yr amddifad a’r gweddwon rhag trais y cyfoethog. Yn rhyfeddol, cawn ein hachub nid gan declyn arbennig a elwir yn grefydd, ond gan ansawdd ein cysylltiadau dyddiol â’n gilydd. Cristnogaeth, nid Deallusrwydd Ffrenig a ddyfeisiodd cysyniad bywyd bob dydd.”⁴

⁴ *Reason, Faith, and Revolution – Reflections on the God Debate*, Terry Eagleton, YUP New Haven 2009, tt. 18-19

Aiff yn ei flaen i ddweud bod y Meseia hwn yn ymwrthod ag arfau distryw, gan gyrraedd y brifddinas ar gefn asyn ac yna cael ei ladd. Ac os oes rhywun yn ateb *“talwch felly bethau Cesar i Gesar, a phethau Duw i Dduw”*, nid yw hynny'n golygu bod crefydd yn un peth a gwleidyddiaeth yn beth arall. Byddai unrhyw Iddew duwiol yng nghyfnod yr Iesu yn gwybod bod pethau Duw yn cynnwys gweithio dros gyfiawnder, croesawu'r mewnddyfodiaid a darostwng yr uchel eu cloch.

Felly os nad oes unrhyw beth ynddo'i hun yn amhur, a thrugaredd yw nodwedd Duw fel y'i gwelir yn yr Iesu yna rhaid bod hynny hefyd yn wir am ei ddisgyblion a dyna pam bod Cristnogion yn credu bod angen iddynt ymwneud â phob agwedd o fywyd, boed iechyd, addysg, rhyfel, tai, ceiswyr lloches neu lywodraethu neu unrhyw agwedd o fywyd sy'n hanfodol i les unigolyn neu gymdeithas. Oherwydd os nad yw'r Efyngyl – ac mae'r gair ei hun yn golygu *“newyddion da”* – yn berthnasol i bob agwedd o fywyd, yna nid yw'n berthnasol i unrhyw agwedd ohono. Nid oes amheuaeth fod cred y wlad hon mewn rhyddid a chydaddoldeb a'r awydd i waredu tloedi, anghyfiawnder, gormes a chaethwasiaeth yn seiliedig ar werthoedd Iddewig Gristnogol.

Felly os nad cenhadaeth yr Iesu oedd achub eneidiau rhag y byd ond yn hytrach dod â Theyrnas Dduw a'i gwerthoedd i drawsnewid y byd hwnnw (dyna ystyr y rhan hon o Weddi'r Arglwydd *“deled dy deyrnas ... megis yn y nef felly ar y ddaear hefyd”*), yna mae pob rheswm i bob Cristion ymwneud â materion bywyd a marwolaeth ein hoes.

Nid yw hynny'n golygu wrth gwrs nad yw Cristnogion yn wahanol i'w gilydd na bod unrhyw safbwynt Cristnogol yn anffaeledig. Nid yw chwaith yn awgrymu bod gan Gristnogion 'fonopoli' ar foesoldeb. Y cyfan yr wyf i'n dadlau drosto ar sail ddiwinyddol ac athronyddol yw bod rhaid i Gristnogion, oherwydd eu credoau, ymwneud â materion eu hoes oherwydd eu bod yn pryderu, fel y gwna Duw, am les y gymdeithas gyfan, ac nid eu buddiannau hwy eu hunain yn unig. Egwyddor sylfaenol yr adroddiad eciwmenaid o 1996 y dyfynnwyd ohono ynghynt yw:

“Nid yw efyngyl Iesu Grist wedi'i chyfeirio at unigolion mewn gwacter. Mae pregethu'r Iesu ei hun wedi'i gyfeirio at adfer ac estyn pobl Dduw; ac effaith Ei fywyd, Ei farwolaeth a'i atgyfodiad yw creu cymuned newydd, ar wahân i'r lleill oherwydd ansawdd ei bywyd cyffredin, bywyd sydd fel y mynna Sant Paul dro ar ôl tro, yn golygu bod pob credadun yn byw er mwyn ei gilydd a chydabyddir fod gan bob un gyfraniad i'w wneud i fywyd y Corff.”

Siapiwyd y wlad hon gan y ffydd Gristnogol ac mae'n rhan annatod o'i hanes. Mae'n wir nad oes cymaint yn mynychu eglwysi ag y bu ac nad yw'r eglwys yn chwarae rhan ym mywyd y genedl fel yr arferai ei wneud, ond nid yw hynny'n golygu nad oes gan bobl ddiddordeb mewn materion ysbrydol. Mae'r mwyafrif o bobl yn y wlad hon yn dal i gredu yn Nuw ac yn parhau i weddio.

Fel y nododd Archesgob Caergaint yn ddiweddar, yn lle gadael iddi ei hun gael ei symud yn dawel i'r ymylon, mae crefydd *“wedi parhau i fod yn bresenoldeb sydd weithiau'n llafar, yn aml yn ddylanwadol iawn yn y bywyd cyhoeddus”*. Pan gaiff pobl

eu lladd ar ein ffyrdd neu pan geir trasiedïau erchyll, ceir pentyrrau o flodau i nodi'r digwyddiad, cynhelir gwasanaethau cyhoeddus. Mae fel pe bai pobl yn ceisio perthynu eu teimladau i rywbeth neu rywun mwy na hwy eu hunain. Ceir awydd i fynegi rhywbeth ysbrydol am fywyd dynol, mynd y tu hwnt i fodolaeth dydd-i-ddydd arferol yn unig.

Ac unwaith eto, i ddyfynnu'r Archesgob Rowan:

“mewn cymdeithas seciwlar resymegol a weinyddir yn ofalus, ni ddylai fod unrhyw emosiynau, delweddau, synhwyrâu a dyheadau diangen. Dylai bod darpariaeth ar eu cyfer, ond nid oes. Ac mae'r Eglwys a chyrff crefyddol eraill yn parhau i fod yn fannau lle caiff y cwestiynau a'r dyheadau hyn, sydd heb eu ffurfio, sydd bron yn anymwybodol, anadlu.”

Fel y dywedodd rhywun arall:

“mae'r Eglwys yn parhau i fod yn fan lle mae pobl yn gosod yr emosiynau nad oes lle iddynt yn unman arall.”

Mae gan Gristnogion ddiddordeb yn lles y gymdeithas gyfan – y lles cyffredin, ac nid eu lles eu hunain yn unig. Dyna pam fod Cristnogion yn gweithio dros elusen, yn dymuno newid sefyllfa'r tlodion, pobl yr ymylon, y di-rym a hefyd yn dymuno adeiladu cymdeithas lle gall pob bod dynol ffynnu.

Mewn geiriau eraill nid yw ffydd Gristnogol yn credu ein bod yn cael ein cyflyru gan faterion cwbl iwtilitaraidd, economaidd neu dechnolegol. Credwn fod cwestiynau dyfnach am ystyr a diben ein bywydau a bod rhaid i'r rhain reoli ein gweithredoedd. *“Mae Diwinyddiaeth,”* meddai Thomas Aquinas, *“yn ceisio dweud rhywbeth am bopeth mewn perthynas â Duw.”*

Fel yr wyf i wedi'i ddweud, mae gwleidyddiaeth yn ymwneud â'r ffordd yr ydym yn ein trefnu ein hunain yn y gymdeithas ac, os yw cymdeithas wedi'i threfnu yn y fath fodd bod pobl yn cael eu heithrio, oherwydd lliw eu croen er enghraifft, neu eu rhyw, yna mae'r Efengyl yn berthnasol. Ac mae'r ffordd yr ydym yn ein trefnu ein hunain fel cenedl yn berthnasol.

Ond yr hyn sy'n rhaid i Gristnogion ei gofio hefyd yw bod rhaid i ni garu'r byd â'r un math o gariad â Duw. Nid ydym yn bobl sydd ar grwsâd cymdeithasol yn gwneud gweithredoedd da yng ngoleuni ein dealltwriaeth **bersonol** ni o bethau. Pobl Dduw yw Cristnogion ac mae angen iddynt fod yn agored lldo er mwyn i ni gael dimensiwn ehangach a mwy o faint. **Os** nad ydym yn agor ein diddordebau a'n ideolegau i burdeb grym a chariad Duw, yna'r perygl yw y gallwn ddechrau uniaethu ein buddiannau â rhai Duw oherwydd nad ydym wedi dod ag anghenion y byd i'w bresenoldeb Ef yn iawn. Rydym yn addoli Duw am ei fod yn Dduw. Pan ddeallwn ni Dduw yn iawn mae'n arwain ni at fywyd cyfiawn, gweithredu cymdeithasol, trugaredd, cariad.

Mae'n hawdd i unrhyw un ohonom leoleiddio Duw. Mae caru Duw a'n cymydog yn golygu dod â'r cyfan a wnawn ac a feddylw'n i'w bresenoldeb Ef i gael ei buro ganddo Ef fel nad ydym yn gostwng Ei gariad i'n dealltwriaeth ni.

I fy meddwl i, yr Ewcharist sydd yn ein hatgoffa o hyn, oherwydd gweithred gymunedol o dderbyn a chroeso i holl bobl Dduw yw'r Ewcharist, waeth beth yw eu cred, dosbarth, rhyw, nodweddion personol. Yn yr Ewcharist:

1. cawn faeth drwy gryfder a gras Duw
2. cawn ein hatgoffa mai Duw yw Arglwydd y Greadigaeth gyfan
3. cawn ein rhyddhau rhag pechod, euogrwydd, parlys ac ofn a'n gwneud yn rhydd o'r gorffennol fel pobl y maddeuwyd iddynt
4. cawn ein hanfon i'r byd i'n cynnig ein hunain gorff ac enaid i ymuno â Duw yn ei frwydr dros ddyfodiad Ei Deyrnas.

Mae'r Ewcharist yn ein harwain i faes cenhadaeth Duw, y byd o'n cwmpas yn ei holl flerwch, poen ac anoddefgarwch. Dyna yw gweithredu gwleidyddol o ran y ddealltwriaeth Gristnogol o bethau.

Oherwydd caiff yr Ewcharist ei roi nid ar gyfer sancteiddio unigol ond yn wir, yng ngeiriau un o Dadau Rhydychen, mae'n *"gwpan gwarthol ar gyfer y frwydr"*. Yma cawn ein hadnewyddu a'n hail-greu nid er ein mwyn ein hunain yn unig, ond fel llysgenhadon Duw dros Ei fyd.

Yn y pen draw felly, mae'r Eglwys, Corff Crist, chi a fi, y bobl sy'n gweddïo ac yn addoli Duw, yn gweithio yn y byd fel asiantau i Dduw dros newid cymdeithasol. Ac os nad yw hynny'n wleidyddol, hoffwn i wybod beth sydd!

*Y Parchedicaaf Ddoctor Barry Morgan
Darlith Flynyddol Morlan
23 Ebrill 2010*